

YR ECOSYSTEM GWIRFODDOLI

Mae'n bwysig edrych ar wirfoddoli fel siwrnai y mae'r gwirfoddolwr yn gwneud cynnydd arni dros amser, a chofio y dylid rhoi cefnogaeth trwy gydol pob cam o'r siwrnai honno, nid dim ond ar y dechrau pan fydd y gwirfoddolwr yn cael ei recriwtio. Dangosir gwahanol gamau profiad y gwirfoddolwr yn yr Ecosystem Gwirfoddoli.

Mae'r tudalennau canlynol wedi cael eu creu i'ch helpu chi i feddwl trwy'r holl brofiad gwirfoddoli yn eich Clwb. Byddant yn eich helpu i ddeall eich sefyllfa bresennol, a nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda iawn, lle gallech wynebu heriau penodol, a phethau y byddwch eisieu eu gwella efallai.

Bydd yr wybodaeth fyddwch yn ei chasglu o'r ymarfer hwn yn eich helpu i ddeall y pethau y gallai fod angen i chi eu gwneud er mwyn parhau i ddenu gwirfoddolwyr newydd, cadw'r rhai presennol, a sicrhau bod eu profiad mor hwyllog a gwerth chweil â phosib.



YR ECOSYSTEM GWIRFODDOLI

Diffiniadau o bob cam a chwestiwn allweddol i'ch annog chi i feddwl


| | | | |
|-----------------------------|--|---|---|
| Ysbrydoli | Y neges a'r straeon rydyn ni'n eu hadrodd i ddenu cynulleidfaoedd i wirfoddoli |  | <ul style="list-style-type: none">• Ydyn ni'n cynrychioli gwirfoddoli yn ein marchnata a'n cyfathrebu?• Pwy yw'r wynebaw gwirfoddoli yn ein Clwb?• Beth yw'r astudiaethau achos a'r straeon cywir i'w hadrodd? |
| Recriwtio | Ble a sut rydyn ni'n cyfathrebu â darpar wirfoddolwyr |  | <ul style="list-style-type: none">• Sut rydyn ni'n recriwtio gwirfoddolwyr newydd a sut rydyn ni'n eu croesawu i'n Clwb?• Sut rydyn ni'n deall ac yn diwallu cymhellion gwahanol bobl i gymryd rhan?• Ble a sut rydyn ni'n hysbysebu swyddogaethau gwirfoddoli? |
| Hyfforddi a Datblygu | Sut rydyn ni'n cefnogi gwirfoddolwyr er mwyn cyflawni eu nodau hwy a nodau pêl droed |  | <ul style="list-style-type: none">• Ydi ein gwirfoddolwyr yn cael sesiwn sefydlu?• Oes gan ein gwirfoddolwyr fynediad at hyfforddiant?• Oes cefnogaeth ychwanegol y gallem ei darparu (fel mentora)?• Pa fath o bethau y mae ein gwirfoddolwyr angen cefnogaeth gyda hwy? |
| Cadw | Sut rydyn ni'n gweithio i gadw ein gwirfoddolwyr a gwneud gwahaniaeth i'w bywydau |  | <ul style="list-style-type: none">• Beth sydd wir yn gwneud gwahaniaeth i fywydau gwirfoddolwyr?• Sut rydyn ni'n cadw ein craidd presennol o wirfoddolwyr?• Beth sy'n cymhell ein gwirfoddolwyr i ddal ati?• Sut rydyn ni'n sicrhau nad ydyn ni'n gofyn gormod gan ein gwirfoddolwyr? |
| Dathlu | Sut rydyn ni'n sicrhau bod gwirfoddolwyr pêl droed yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u gwobrwyo |  | <ul style="list-style-type: none">• Sut rydyn ni'n sicrhau bod gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi?• Sut rydyn ni'n gwobrwyo ac yn dathlu ein gwirfoddolwyr ar bob lefel - o ddiolch syml, sypreis ac ambell eiliad hyfryd i'r Gwobrau ar Lawr Gwlad a thu hwnt? |
| Ehangu | I bwy rydyn ni'n cyfleu'r neges a sut rydyn ni'n eu cyrraedd |  | <ul style="list-style-type: none">• Pwy ydyn ni'n ceisio eu denu?• Sut rydyn ni'n sicrhau ein bod ni'n cyrraedd ein cynulleidfa darged?• Sut gallai partneriaethau allanol ein helpu i gyrraedd mwy o bobl?• Pa adnoddau ydyn ni'n eu defnyddio i rannu ein neges (ee cyfryngau cymdeithasol, tafod lleferydd, grwpiau cymunedol lleol)? |
| Cefnogi | Yr adnoddau a'r prosesau sy'n helpu gwirfoddolwyr yn eu swyddogaethau |  | <ul style="list-style-type: none">• Oes gennym ni strwythur cefnogi yn ei le ar gyfer ein gwirfoddolwyr?• Sut rydyn ni'n defnyddio elfennau digidol i gefnogi gwirfoddoli?• Sut rydyn ni'n gwerthuso'r hyn sy'n gweithio a'r hyn sy'n llai llwyddiannus?• Oes gennym ni brosesau diogelu digonol yn eu lle? |



YMARFER: HERIAU A LLWYDDIANNAU

Gan ddefnyddio'r templed ar y dudalen nesaf, meddylwch trwy bob cam o'r profiad gwirfoddoli yn eich Clwb ac ystyriwch beth sy'n gweithio'n dda iawn a pha heriau rydych chi'n eu hwynebu. Gallwch ddefnyddio'r cwestiynau ar y dudalen flaenorol i ysgogi eich meddwl.

Mae'n ddefnyddiol gofyn i nifer o wirfoddolwyr gyfrannu at yr ymarfer hwn, gan fod pob unigolyn yn debygol o fod wedi cael profiad gwahanol ac felly'n cyfrannu persbectif ychydig yn wahanol. Gallech ddsbarthu'r canllaw yma a gofyn i bobl roi adborth yn unigol, neu fe allech chi ddod â phawb at ei gilydd a thrafod a gweithio trwy'r templed fel grŵp.



Heriau

Beth yw'r heriau mwyaf rydych chi'n eu hwynebu ym mhob rhan o'r ecosystem?

Beth yw'r problemau allweddol i'ch clwb / cynghrair y mae angen eu datrys?

Llwyddiannau

Beth sy'n gweithio'n dda iawn ar hyn o bryd?

Pa bethau ydych chi wedi'u rhoi ar waith y dylech chi barhau â hwy / y gallech chi ddysgu ohonyn nhw?

CEFNOGAETH Darparu'r adnoddau a'r prosesau corfforol a digidol (gan gynnwys diogelu) i gefnogi gwirfoddolwyr yn eu swyddogaethau



HERIAU A LLWYDDIANNAU

| Ysbrydoli | Recriwtio | Hyfforddi a Datblygu | Cadw | Dathlu | Ehangu | Cefnogi |
|-----------|-----------|----------------------|------|--------|--------|---------|
|-----------|-----------|----------------------|------|--------|--------|---------|

Beth yw eich heriau mwyaf?

| | | | | | | |
|--|--|--|--|--|--|--|
| | | | | | | |
|--|--|--|--|--|--|--|

Beth sy'n gweithio'n dda iawn?

| | | | | | | |
|--|--|--|--|--|--|--|
| | | | | | | |
|--|--|--|--|--|--|--|

